

**Arolygiad Practis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle rhoddwyd rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Addysgu  
Powys, A&P Powell–Main**

2 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
5.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o A&P Powell–Main yn 1 Parkers Lane, y Drenewydd, Powys, SY16 2LT, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 2 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>3</sup> Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer timau deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae A&P Powell–Main yn darparu gwasanaethau i tua 2,000 o gleifion yn ardal y Drenewydd ym Mhowys. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Practis cymysg yw A&P Powell–Main sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau'r GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys tri deintydd cyswllt, dau dderbynnydd, a thair nyrs ddeintyddol.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae A&P Powell–Main yn bodloni'r safonau gofal yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

### Profiad y Claf

Dangosodd ein harsylwadau anffurfiol ac ymatebion i holiaduron fod mwyafrif y cleifion yn hapus gyda'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis hwn. Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw systemau sefydledig ar gyfer gofyn am adborth cleifion yn ffurfiol, y gellid ei ddefnyddio i wella a datblygu'r gwasanaeth, a bod angen gwneud rhywfaint o welliannau i faint o wybodaeth am y practis a deunydd hybu iechyd deintyddol sydd ar gael i gleifion. Gwnaethpwyd dau argymhelliad gennym ar gyfer gwella yn y maes hwn.

### Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod safon gofnodi dda yng nghofnodion y cleifion, a oedd yn dangos bod safon dda o ofal deintyddol yn cael ei darparu hefyd. Canfuwyd gennym fod nifer o feysydd lle'r oedd y systemau rheoli'n golygu bod gwybodaeth ar goll, ac y gellid dirprwyo tasgau rheoli penodol yn well i helpu i wella hyn. Gwnaethpwyd wyth argymhelliad gennym ar gyfer gwella yn y maes hwn.

### Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym yn gyffredinol ei bod yn ymddangos bod y practis yn rhedeg yn ddidrafferth, ac roeddem yn teimlo y gellid priodoli hyn i'r ffaith fod grŵp hynod brofiadol a hirsefydlog o staff cynorthwyol yn gweithio yno. Roedd nifer o feysydd lle'r oeddem yn teimlo y byddai dirprwyo tasgau rheoli o ddydd i ddydd yn ddefnyddiol ac yn ofynnol i sicrhau y gellir sicrhau gwelliant a chydymffurfiad parhaus â rheoliadau a safonau. Gwnaethpwyd pum argymhelliad gennym ar gyfer gwella yn y maes hwn.

### Ansawdd yr Amgylchedd

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod y practis yn lân, yn braf, ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon briodol y gellid ystyried ei bod yn hwyluso gofal cleifion da. Canfuwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i'r cyfleusterau sydd ar gael i staff y practis, a gellid gwneud yr ystafell ddadheintio yn fwy diogel pe bai clo'n cael ei osod ar y fynedfa i'r ystafell. Gwnaethpwyd dau argymhelliad gennym ar gyfer gwella yn y maes hwn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dangosodd ein harsylwadau anffurfiol ac ymatebion i holiaduron fod mwyafrif y cleifion yn hapus gyda'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis hwn. Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw systemau sefydledig ar gyfer gofyn am adborth cleifion yn ffurfiol, y gellid ei ddefnyddio i wella a datblygu'r gwasanaeth, a bod angen gwneud rhywfaint o welliannau i faint o wybodaeth am y practis a deunydd hybu iechyd deintyddol sydd ar gael i gleifion.**

Ein prif ddull ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion yn rhan o'r arolygiad hwn oedd trwy ddsbarthu holiaduron i'r cleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cwblhawyd a dychwelwyd 22 i ni. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi bod yn gleifion yn y practis ers 20 mlynedd neu fwy. Roedd y claf mwyaf newydd i ymateb wedi bod yn mynychu'r practis ers pedair blynedd.

Dyweddodd pob un o'r 22 ymatebwr wrthym eu bod yn cael croeso gan staff y practis, a derbyniwyd sylwadau ychwanegol gennym i bwysleisio hyn, fel:

*“Maen nhw bob amser yn hyfryd ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus”*

*“Staff hyfryd”*

Fe'n hysbyswyd gan staff y practis eu bod yn adnabod y boblogaeth cleifion rheolaidd yn dda iawn ac yn teimlo bod ganddynt berthynas agored lle mae cleifion yn rhoi adborth, cadarnhaol a negyddol, iddynt ar lafar yn rheolaidd. Cadarnhaodd yr arsylwadau anffurfiol i ni eu gwneud o gyswllt rhwng staff a chleifion y berthynas gadarnhaol â chleifion a ddisgrifiwyd i ni.

Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd nad oes gan y practis unrhyw ddulliau ffurfiol ar gyfer casglu adborth cleifion, ac nid yw wedi cynnal unrhyw arolygon na holiaduron yn canfasio adborth cleifion yn rheolaidd. Hysbyswyd y practis gennym i gyflwyno system lle mae'n gofyn am sylwadau cleifion yn ffurfiol ac yn rheolaidd fel y gallant gael mynediad at y ffynhonnell wybodaeth hon, a allai fod yn gyfoethog a gwerthfawr.

Dyweddodd 20 allan o 22 wrthym eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn gan y practis. Fe'n hysbyswyd gan y ddau ymatebwr arall eu bod yn “gyffredinol” hapus ac “weithiau'n” hapus gyda'r gwasanaeth. Dywedodd un arall wrthym ei fod yn hapus ond yn dymuno cael ei drin gan ddeintydd sy'n gwisgo gwisg feddygol. Gofynnwyd am eglurhad o'r mater hwn, ac fe'n hysbyswyd y bu anomali ar un achlysur, gan fod yr holl staff, gan gynnwys deintyddion, yn gwisgo gwisgoedd meddygol fel rheol. Pe bai system adborth



ffurfiol, efallai y byddai'r practis yn gallu derbyn rhagor o wybodaeth a fyddai'n eu helpu i ddeall yn well pam nad yw rhai cleifion (fel y rhai a ymatebodd i'n holiadur) yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth.

### ***Argymhelliad***

***Cyflwyno system ar gyfer gofyn am safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau yn rheolaidd (yn ffurfiol). Mae Safon 6.3 y Safonau Iechyd a Gofal (2015) yn disgwyl i wasanaethau iechyd gael eu llywio gan yr adborth y maent yn ei dderbyn a dangos eu bod yn cymryd camau yn sgil hwn ac yn dysgu ohono.***

Er bod yr ystafell aros yn lân ac yn daclus, roedd y wybodaeth i gleifion a arddangoswyd/oedd ar gael yn gyfyngedig, gan gynnwys gwybodaeth am hybu iechyd. Nid oedd unrhyw daflenni gwybodaeth cyfredol ar gyfer cleifion newydd neu ddarpar gleifion chwaith, er i ni gael ein hysbysu bod y staff wrthi'n datblygu'r rhain.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Darparu rhagor o wybodaeth i gleifion am hybu iechyd deintyddol yn yr ystafell aros a sicrhau y datblygir taflenni gwybodaeth am y practis a'u gwneud ar gael ar unwaith.***

Roedd tystiolaeth wedi'i chofnodi'n eglur yn y nodiadau cleifion i ni edrych arnynt fod cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau a manteision triniaeth a awgrymir. Gwelsom hefyd gynlluniau triniaeth yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gan gleifion yn y dderbynfa, sy'n dynodi bod gan y practis ddiwylliant o sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu a'u cynorthwyo i ddeall eu triniaeth a chost y driniaeth cyn ei derbyn. Gwnaethpwyd rhai arsylwadau pellach gennym o ran sut y gellid cryfhau'r cofnodion mewn nodiadau cleifion er mwyn dangos y trafodaethau hyn yn well, a byddwn yn cyfeirio at y rhain yn ddiweddarach yn adran "Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal" yr adroddiad.

## ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod safon gofnodi dda yng nghofnodion y cleifion, a oedd yn dangos bod safon dda o ofal deintyddol yn cael ei darparu hefyd. Canfuwyd gennym fod nifer o feysydd lle'r oedd y systemau rheoli'n golygu bod gwybodaeth ar goll, ac y gellid dirprwyo tasgau rheoli penodol yn well i helpu i wella hyn.**

Archwiliwyd sampl ar hap o gofnodion pum claf gennym ar gyfer pob un o'r tri deintydd yn y practis. Roedd y sampl hwn yn cynnwys cymysgedd o gofnodion cleifion preifat a chleifion y GIG, yn ymwneud ag oedolion a phlant. Roedd safon y gwaith o gadw cofnodion yn dda iawn yn gyffredinol. Roedd hanesion meddygol yn cael eu diweddarau gan y claf yn ystod pob ymweliad. Mae'r holl ddeintyddion yn ysgrifennu cofnodion manwl a llawn gwybodaeth â thystiolaeth o gynllunio triniaeth a thrafodaeth o'r opsiynau triniaeth sydd ar gael. Rhoddwyd cyngor ar iechyd y geg i'r cleifion hefyd, a gwelsom fod hyn wedi'i gofnodi. Rhoddwyd cynllun triniaeth i bob claf, yn nodi'r driniaeth i'w chyflawni a'r costau cysylltiedig. Awgrymwyd gennym y gellid gwella cofnodion ymhellach pe bai pob deintydd yn sgrinio ar gyfer canser a'i gofnodi, ac yn nodi bod y claf wedi rhoi caniatâd i'r driniaeth gael ei darparu yn ystod pob ymweliad.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Sicrhau bod caniatâd cleifion i driniaeth yn cael ei gofnodi yn eu nodiadau. Sicrhau bod hanes cymdeithasol perthnasol (cymeriant alcohol) yn cael ei drafod a'i gofnodi. Sgrinio ar gyfer canser a'i gofnodi.***

Mewn achosion lle'r oedd cleifion wedi derbyn archwiliad pelydr-X, nid oedd canfyddiadau a graddau clinigol yn cael eu cofnodi'n gyson yn eu nodiadau. Nid oedd unrhyw archwiliad sicrhau ansawdd cyffredinol o archwiliadau pelydr-X chwaith.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae angen gwella safon a manylder cofnodion o ran radiograffau. Mae angen cyflwyno system ar gyfer sicrhau ansawdd cyffredinol yr holl radiograffau a gyflawnir yn y practis.***

Roedd yr ystafell lle cynhelir archwiliadau pelydr-X yn addas, ac roedd yr holl ddeintyddion wedi cael eu hyfforddi i'r safon ofynnol yn ystod y pum mlynedd flaenorol yn unol â'r rheoliadau. Roedd angen ailystyried rhai o'r dogfennau yn ymwneud â chynnal radiograffau, ac roedd angen ailystyried y person a enwyd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd yn benodol, oherwydd newid i'r staff sy'n

gweithio'n glinigol yn y practis. Mae angen diweddarau'r polisïau a'r cofnodion perthnasol yn unol â hyn ar ôl i hyn gael ei wneud.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid adolygu a diweddarau'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â chynnal radiograffau er mwyn sicrhau yr enwebir yr unigolion mwyaf priodol i gyflawni swyddogaethau "goruchwlydd" a "chynghorydd".***

Treuliwyd rhywfaint o amser yn ystyried cynllun yr ystafell ddadheintio, ac edrychwyd hefyd ar y gweithdrefnau a ddefnyddir gan y staff ar gyfer dadheintio offerynnau ar ôl eu defnyddio. Canfuwyd gennym fod nifer o feysydd i'w gwella, yn bennaf o ran yr amgylchedd ffisegol ei hun. Roedd yr ystafell ddadheintio'n fawr, ac felly mae'r staff yn gallu cwblhau'r broses lanhau mewn man tawel sydd wedi'i oleuo'n dda. Roedd amrywiaeth o offer glanhau yn yr ystafell, ond nid oedd unrhyw arwyddion fel y gellid nodi'n rhwydd pa fan oedd ar gyfer trin offerynnau glân a lle y caiff offerynnau budr eu prosesu. Trafodwyd hyn gyda'r practis, ac fe'i hysbyswyd i'w gwneud yn eglur beth ddylid ei wneud ym mha fan trwy ddefnyddio parthau wedi'u marcio.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Marcio'r llif gwaith budr i lân yn yr ystafell ddadheintio yn eglur, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.***

Yn unol â WHTM 01-05, dylai fod sinc golchi dwylo ar wahân i'r sinciau a ddefnyddir ar gyfer glanhau offerynnau a ddefnyddiwyd, ond nid dyma'r achos yn y practis ar hyn o bryd. Rydym wedi gofyn iddynt ymchwilio i sut y gallant wneud hyn yn bosibl a'n hysbysu hefyd am yr amserlen y maent yn bwriadu ei dilyn i addasu'r ystafell a symud tuag at fodloni'r canllawiau.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylai fod sinc golchi dwylo benodedig yn y man dadheintio. Dylai'r practis ymchwilio i osod sinc ar wahân a chynnwys hyn yn ei gynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Dylid hysbysu AGIC am yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn y dyfodol.***

Caiff offerynnau eu storio i'w hail-ddefnyddio ar ôl eu glanhau a'u sterileiddio. Roedd y practis yn nodi'r dyddiadau prosesu ar y bagiau, ond mae angen hefyd iddynt nodi erbyn pa ddyddiad y dylid aildefnyddio'r offerynnau cyn bod angen

eu sterileiddio eto. Trafodwyd canllaw WHTM 01-05,<sup>4</sup> a chyngorwyd y practis i gyflwyno system i sicrhau y cedwir offerynnau yn unol â'r canllawiau diweddaraf yn unig. Rydym hefyd wedi cynghori'r practis i ymgyfarwyddo ei hun â'r ddogfen hon er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a newidiadau yn y dyfodol.

Mae trefniadau ar waith i ymdrin â gwastraff; fodd bynnag, nid oedd gan y practis becyn ar gael i ymdrin ag unrhyw achosion o arllwys mercwri. Gall mercwri fod yn niweidiol, ac er bod y cynhyrchion a ddefnyddir yn y practis yn cyfyngu ar y posibilrwydd o unrhyw arllwysadau, dylai pecyn fod ar gael beth bynnag i ymdrin yn ddiogel â hyn pe bai'n digwydd.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

#### ***Sicrhau bod pecyn ar gael i ymdrin ag achosion o arllwys mercwri.***

Roedd contract ar waith i sicrhau y ceir gwared ar yr holl ffrydiau gwastraff a gynhyrchir yn y practis. Dangoswyd y man awyr agored lle caiff gwastraff clinigol ei gadw'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu i ni. Gwelsom y biniau a gedwir yn yr ystafell ddadheintio hefyd, a ddefnyddir i wahanu'r gwastraff yn ystod y dydd. Nid oedd yr un o'r rhain yn cael eu gweithredu â throed, ac argymhellwyd gennym y dylid cael gafael ar finiau pedal cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y perygl o groes-heintio cyn lleied â phosibl.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

#### ***Sicrhau bod yr holl finiau clinigol yn cael eu gweithredu â throed neu synhwyrdd er mwyn sicrhau bod yr angen i gyffwrdd ac efallai cludo haint o un eitem i'r llall cyn lleied â phosibl. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05.***

---

<sup>4</sup> Memorandwm Technegol Iechyd Cymru yw WHTM 01-05, dogfen ganllaw sy'n nodi'r safonau dadheintio a rheoli heintiau y dylai practisau deintyddol gofai sylfaenol eu dilyn.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol ei bod yn ymddangos bod y practis yn rhedeg yn ddiraffferth, ac roeddem yn teimlo y gellid priodoli hyn i'r ffaith fod grŵp hynod brofiadol a hirsefydlog o staff cynorthwyol yn gweithio yno. Roedd nifer o feysydd lle'r oeddem yn teimlo y byddai dirprwyo tasgau rheoli o ddydd i ddydd yn ddefnyddiol ac yn ofynnol i sicrhau y gellir sicrhau gwelliant a chydymffuriad parhaus â rheoliadau a safonau.**

Roedd y tîm staff, gan gynnwys tair nyrs ddeintyddol a dau dderbynnydd, oll wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd, ac roedd yn ymddangos bod ganddynt berthynas waith dda. Roedd tri deintydd cyswllt yn gweithio'n rhan-amser yn y practis ar adeg ein harolygiad. Bu gŵr a gwraig a oedd yn brif ddeintyddion yn y practis yn y gorffennol hefyd. Nid ydynt yn chwarae rhan ar sail glinigol erbyn hyn, er bod y ddau'n dal i gyflawni swyddogaethau rheoli'r practis a rheoli'r busnes, gan reoli'r practis a'r tîm yn gyffredinol.

Roedd amrywiaeth o wahanol wybodaeth yn ymwneud â statws cyflogaeth a brechiadau'r staff sy'n gweithio yn y practis a welwyd gennym. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi cael eu trefnu a'u storio'n anghyson ac, o ganlyniad, roedd rhywfaint o wybodaeth ar goll, y dywedwyd wrthym oedd yn cael ei chadw yn rhywle ond na ellid dod o hyd iddi ar adeg ein harolygiad. Rydym wedi gohebu ar wahân â'r practis trwy ein proses Sicrhau ar Unwaith ac wedi gofyn iddo roi tystiolaeth i ni o gofnodion staff cyflawn ar gyfer unigolion penodol pan nad oedd hon ar gael. Rydym hefyd wedi argymhell y dylid cyflwyno system briodol ar gyfer ffeilio a storio gwybodaeth cyflogaeth a hyfforddiant staff i osgoi'r sefyllfa hon yn y dyfodol.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylid cyflwyno ffeiliau staff yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys contractau a statws imiwneiddio, a'u cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.***

Mae'r staff yn olrhain eu hyfforddiant eu hunain, ac ni chedwir cofnod canolog i gofnodi pwy sydd wedi derbyn hyfforddiant a pha hyfforddiant yr oedd angen iddynt ei dderbyn. Nid oedd y practis yn gallu ein sicrhau bod yr holl hyfforddiant staff yn gyfredol felly. Er ein bod yn gallu gweld bod amrywiaeth o hyfforddiant wedi'i ddarparu ac i'r nyrsys deintyddol ein hysbysu am hyfforddiant yr oeddent wedi ei dderbyn yn ddiweddar ac yr oeddent ar fin ei dderbyn, nid oedd unrhyw system i nodi'n eglur a rhwydd a oedd gofynion hyfforddiant yn cael eu bodloni.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Creu a chynnal cofnod hyfforddiant sy'n dangos manylion yr holl aelodau staff a'r sefyllfa gyfredol o ran eu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall.***

Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn gallu trafod materion yn feunyddiol a'u bod wedi cynnal cyfarfodydd staff mwy ffurfiol yn y gorffennol. Gwelsom dystiolaeth o rai o'r cyfarfodydd blaenorol hyn, ac fe'n hysbyswyd gan y staff, gan gynnwys y deintyddion, y byddent yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â'i gilydd yn fwy ffurfiol fel tîm unwaith eto.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylid ailgychwyn cyfarfodydd tîm yn rheolaidd, a gellid ystyried system ar gyfer cylchdroi'r cyfrifoldeb am arwain pob cyfarfod. Dylid cofnodi cynnwys y cyfarfodydd. Dylid cofnodi tystiolaeth dysgu a chynllunio sy'n deillio o hyn hefyd.***

Er bod templed gwag i ni ei weld y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwerthusiadau staff, nid oes unrhyw system ar gyfer cynnal y rhain ar hyn o bryd. Collwyd y cyfle y gall gwerthusiadau ei gynnig i adolygu a thrafod anghenion dysgu (ymhlith materion eraill) hyd yn hyn felly.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Dylid cynnal gwerthusiadau staff yn flynyddol a'u cofnodi. Dylai'r trafodaethau gynnwys cynllunio datblygiad personol.***

Roeddem yn gallu gweld bod gwybodaeth am sut i wneud awgrym neu gŵyn wedi'i harddangos ar boster maint A4 bach ar y wal yn y dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn nodi'r weithdrefn y dylid ei dilyn pe bai claf yn dymuno codi mater. Mae angen adolygu'r ddogfen bolisi ei hun er mwyn sicrhau ei bod yn cymryd i ystyriaeth yr amserlenni a nodir yn nogfen 'Gweithio i Wella'<sup>5</sup> y GIG a hefyd i sicrhau y cyfeirir achwynwyr yn briodol at le y gallant wneud eu cwynion os nad ydynt yn fodlon â'r canlyniad a gânt gan y practis. Fe'i hysbyswyd gennym y bydd y weithdrefn hon yn wahanol os bydd y claf yn

---

<sup>5</sup> 'Gweithio i Wella' yw trefniadau'r GIG ar gyfer ymdrin â phryderon yng ngwasanaethau'r GIG ac ymateb iddynt, ac fe'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011.

derbyn triniaeth breifat yn hytrach na thriniaeth y GIG, ac rydym hefyd wedi cyfeirio'r practis at y rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn cyfeirio at y rhain yn ei bolisi.

***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu ei bolisi a'i weithdrefn cwynion er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dogfennau allweddol a nodir uchod. Mae'n rhaid gwneud y weithdrefn yn hygyrch hefyd a'i harddangos yn eglur mewn fformat sy'n addas ar gyfer cymaint o gleifion â phosibl.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes unrhyw argymhelliad penodol wedi ei wneud yn hyn o beth, ceir disgwyliad o hyd y bydd tystiolaeth o welliant amlwg o'r safbwynt hwn ar adeg yr adolygiad nesaf.

## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod y practis yn lân, yn braf, ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon briodol y gellid ystyried ei bod yn hwyluso gofal cleifion da. Canfuwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i'r cyfleusterau sydd ar gael i staff y practis, a gellid gwneud yr ystafell ddadheintio yn fwy diogel pe bai clo'n cael ei osod ar y fynedfa i'r ystafell.**

Mae'r practis wedi'i leoli mewn adeilad yng nghanol y Drenewydd, Powys. Mae'r holl fannau i gleifion ar y llawr daear, ac roeddem o'r farn bod yr ystafell aros yn fawr ac yn lân. Roedd y deintyddfeydd a'r ystafell ddadheintio yn lân ac yn cynnwys y gosodiadau priodol, er bod rhai ystafelloedd yn edrych fel pe byddai angen eu moderneiddio rywfaint yn y dyfodol agos. Ceir un toiled i ddynion ac un i fenywod ar gyfer y staff a'r cleifion, ac nid yw'r un o'r ddau ohonynt yn hygyrch nac yn addas ar gyfer pobl anabl. Efallai y bydd angen ystyried pa mor briodol yw hyn ar ryw adeg.

Ni ddefnyddir llawr cyntaf yr adeilad gan y staff na'r cleifion ar hyn o bryd. Ac eithrio'r toiledau a swyddfa fach iawn y tu ôl i'r dderbynfa, nid oes unrhyw gyfleusterau newid i'r staff na man penodedig i gael seibiant neu i fwyta bwyd yn ystod egwyliau.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (6.33) yn argymhell bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i staff newid. Yn unol â'r uchod, dylid nodi a chynllunio man priodol i staff newid. Dylid hysbysu AGIC am y cynllun a chanlyniad yr ystyriaeth hon.***

Nodwyd gennym fod y pecyn brys, gan gynnwys meddyginiaeth briodol, yn ogystal â nifer o gemegau, wedi'i storio mewn ffordd nad oedd yn ddiogel yn yr ystafell ddadheintio. Argymhellwyd gennym y dylid cadw hwn dan glo, naill ai gan ddefnyddio pad bysellau i ddiogelu'r drws i'r ystafell neu ei gloi yn yr ystafell ei hun.

### ***Gwelliant sydd ei angen***

***Sicrhau bod yr holl gemegau a meddyginiaeth a allai fod yn beryglus yn cael eu cadw mewn man y gellir ei gloi.***



## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad y Claf, Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Mae manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn A& P Powell–Main yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

**Atodiad A**

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: A&P Powell–Main**

**Dyddiad yr Arolygiad: 2 Mehefin 2015**

<b>Rhif Tudalen</b>	<b>Gwelliant sydd ei Angen</b>	<b>Camau gan y Practis</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
	<b>Profiad y Claf</b>			
7.	<i>Cyflwyno system ar gyfer gofyn am safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau yn rheolaidd (yn ffurfiol). Mae Safon 6.3 y Safonau Iechyd a Gofal (2015) yn disgwyl i wasanaethau iechyd gael eu llywio gan yr adborth y maent yn ei dderbyn a dangos eu bod yn cymryd camau yn sgil hwn ac yn dysgu ohono.</i>			
7.	<i>Darparu rhagor o wybodaeth i gleifion am hybu iechyd deintyddol yn yr ystafell</i>			

Rhif Tudalen	Gwelliant sydd ei Angen	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>aros a sicrhau y datblygir taflenni gwybodaeth am y practis a'u gwneud ar gael ar unwaith.</i>			
<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>				
8.	<i>Sicrhau bod caniatâd cleifion i driniaeth yn cael ei gofnodi yn eu nodiadau. Sicrhau bod hanes cymdeithasol perthnasol (cymeriant alcohol) yn cael ei drafod a'i gofnodi. Sgrinio ar gyfer canser a'i gofnodi.</i>			
8.	<i>Mae angen gwella safon a manylder cofnodion o ran radiograffau. Mae angen cyflwyno system ar gyfer sicrhau ansawdd cyffredinol yr holl radiograffau a gyflawnir yn y practis.</i>			
9.	<i>Mae'n rhaid adolygu a diweddarau'r holl bolisiau a gweithdrefnau'n ymwneud â</i>			

Rhif Tudalen	Gwelliant sydd ei Angen	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<i>chynnal radiograffau er mwyn sicrhau yr enwebir yr unigolion mwyaf priodol i gyflawni swyddogaethau “goruchwilydd” a “chynghorydd”.</i>			
9.	<i>Marcio'r llif gwaith budr i lân yn yr ystafell ddadheintio yn eglur, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.</i>			
9.	<i>Dylai fod sinc golchi dwylo benodedig yn y man dadheintio. Dylai'r practis ymchwilio i osod sinc ar wahân a chynnwys hyn yn ei gynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Dylid hysbysu AGIC am yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn y dyfodol.</i>			
10.	<i>Sicrhau bod pecyn ar gael i ymdrin ag achosion o arllwys mercwri.</i>			

Rhif Tudalen	Gwelliant sydd ei Angen	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10.	<p><i>Sicrhau bod yr holl finiau clinigol yn cael eu gweithredu â throed neu synhwrydd er mwyn sicrhau bod yr angen i gyffwrdd ac efallai cludo haint o un eitem i'r llall cyn lleied â phosibl. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05.</i></p>			
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
11.	<p><i>Dylid cyflwyno ffeiliau staff yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys contractau a statws imiwneiddio, a'u cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.</i></p>			
12.	<p><i>Creu a chynnal cofnod hyfforddiant sy'n dangos manylion yr holl aelodau staff a'r sefyllfa gyfredol o ran eu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall.</i></p>			

Rhif Tudalen	Gwelliant sydd ei Angen	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12.	<p><i>Dylid ailgychwyn cyfarfodydd tîm yn rheolaidd, a gellid ystyried system ar gyfer cylchdroi'r cyfrifoldeb am arwain pob cyfarfod. Dylid cofnodi cynnwys y cyfarfodydd. Dylid cofnodi tystiolaeth dysgu a chynllunio sy'n deillio o hyn hefyd.</i></p>			
12.	<p><i>Dylid cynnal gwerthusiadau staff yn flynyddol a'u cofnodi. Dylai'r trafodaethau gynnwys cynllunio datblygiad personol.</i></p>			
13.	<p><i>Mae'n rhaid i'r practis adolygu ei bolisi a'i weithdrefn cwynion er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dogfennau allweddol a nodir uchod. Mae'n rhaid gwneud y weithdrefn yn hygyrch hefyd a'i harddangos yn eglur mewn fformat sy'n addas ar gyfer cymaint o gleifion â phosibl.</i></p>			

Rhif Tudalen	Gwelliant sydd ei Angen	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
14.	<p><i>Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (6.33) yn argymhell bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i staff newid. Yn unol â'r uchod, dylid nodi a chynllunio man priodol i staff newid. Dylid hysbysu AGIC am y cynllun a chanlyniad yr ystyriaeth hon.</i></p>			
14.	<p><i>Sicrhau bod yr holl gemegau a meddyginiaeth a allai fod yn beryglus yn cael eu cadw mewn man y gellir ei gloi.</i></p>			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch):** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....